# MILIYNAU'R EDWARDSIAID

## gan RICHARD LEWIS

Fe allai'r pwt hwn fod o ddiddordeb i bob un o aelodau Cymdeithas Bob Owen a darllenwyr *Y Casglwr* sydd yn arddel y cyfenw Edwards neu sydd yn gysylltiedig â'r cyfenw mewn unrhyw ffordd. Y mae fy ymwneud i â'r stori yn dechrau tua phedwar mis yn ôl pan ddechreuais dderbyn ymholiadau'n gofyn am fwy o fanylion am y stori yn dilyn ymddangosiad cyfeiriadau at rai o elfennau'r stori yn y wasg genedlaethol o gwmpas cyfnod y Nadolig a'r Calan. Y pennawd trawiadol yn rhifyn 5 Ionawr 1994 o'r *Western Mail* oedd:

**Pirate Edwards' heirs chase £20bn fortune**

Y stori yn ôl yr erthygl yn y *Western Mail* oedd bod môr-leidr o'r enw Robert Edwards, Cymro oedd yn hanu o ardal Pontypridd, wedi cael ei anrhegu â llain sylweddol o dir yn ardal Efrog Newydd am ei orchestion fel môr-leidr. Ar y llain 77 erw hwn y saif Manhatan Isaf, Efrog Newydd, heddiw a'r hyn sydd yn gwneud y stori yn un arbennig o ddeniadol yw'r honiad fod Robert Edwards wedi datgan ar ei wely angau fod y tir ynghyd â phopeth a adeiladwyd arno i'w drosglwyddo i unrhyw berson a allai brofi ei fod yn perthyn iddo ar ôl iddo farw. Pan sylweddolir mai ar y llain hwn o dir y saif adeiladau adnabyddus fel Cyfnewidfa Stoc Efrog Newydd, Wall Street a'r Federal Building mae rhywun yn dechrau sylweddoli gwerth y tir. Mewn erthygl a ymddangosodd yn y *Raleigh News and Observer* yn 1924 yr oedd yr awdur yn amcangyfrif fod y cyfan yn werth 400 miliwn o ddoleri yr adeg hynny!

Yr hyn sydd gennym yn y stori arbennig hon yw stori sydd yn sicr o greu'r cynnwrf mwyaf ymhlith achyddwyr yn ddi-eithriad. Mae'n stori wych ond ar yr un pryd mae'n gymleth ac yn amlach na pheidio yn anelwig yn aml hefyd. Yr hyn sydd yn arbennig o ddiddorol i ni yma yng Nghymru yw'r ffaith fod pob fersiwn o'r stori yn troi o gwmpas un Robert Edwards o Gymru. Dros y blynyddoedd bu llu o achosion llys yn gysylltiedig â'r stori yma yn y wlad hon a thros y don yn America a thrwy'r cyfan y mae yna lu o Edwardsiaid yn dal i fyw mewn gobaith y bydd modd iddynt brofi eu bod yn perthyn i'r hen Robert Edwards a thrwy hynny hawlio rhan o'r etifeddiaeth anferthol.

Mae'n debyg mai'r hyn sydd wedi ail-gynnau'r diddordeb yn y stori yn awr yw ymddangosiad cyfrol gan un David D. Edwards yn dwyn y teitl *The Edwardes Legacy* a gyhoeddwyd gan Wasg Gateway ym Maltimore yn 1992 ac ymdrechion y David D. Edwards hwn i wneud ffilm o'r stori. Yn y gyfrol sylweddol hon (232 tudalen o faint tua A4) olrheinir Robert Edwards yn ôl i'r teulu Edwards sydd yn cael eu cysylltu â phlasty o'r enw Edwards Hall sydd cael ei leoli yn ardal Caerdydd. Mae David D. Edwards yn dweud fod Robert Edwards yn fab i un Syr Thomas Nathaniel Edwards, 1690-1778, Edwards Hall, a'i wraig Elizabeth, a bod Robert a dau o'i frodyr wedi ymfudo i America ac wedi ymsefydlu yno am gyfnod, yn ardal Efrog Newydd ac yng Ngogledd Carolina. Tra yno dywedir fod Robert wedi buddsoddi mewn dau lain o dir yn ardal Efrog Newydd. Yn 1778 trosglwyddodd ei dir ar brydles i John a George Cruger am gyfnod o 99 mlynedd. Mae yna gopi o'r brydles ar gael heddiw a'r hyn sydd yn ddiddorol yw fod yna gymal ar ei diwedd yn dweud fod y tir i ddod yn ôl i feddiant disgynyddion Robert Edwards, sef plant ei frodyr a'i chwiorydd ar ddiwedd y 99 mlynedd. Dywedir fod Robert Edwards wedi cychwyn yn ôl am Gymru yn 1780 ond fod ei long wedi suddo ar y fordaith ac yntau wedi boddi.

Dros y blynyddoedd mae disgynyddion Robert Edwards a'i frodyr wedi gwneud sawl ymdrech i gael eu dwylo ar yr etifeddiaeth. Cafwyd rhai ymdrechion ddiwedd y ganrif ddiwethaf a rhai eraill yn gynnar y ganrif hon. Yna yn ystod yr 1950au gwelwyd y disgynyddion yn ymdrefnu'n daclusach ac yn ffurfio cymdeithasau mewn sawl gwlad gan gynnwys Cymru. Y mae yna gasgliad sylweddol o bapurau a dogfennau o eiddo cangen Cymru o'r *Edwards Family Claimants' Association* a ffurfiwyd yn ne Cymru yn y 1950au ym meddiant Archifdy Morgannwg ers tua 1984.

Y broblem fawr sydd yn wynebu'r disgynyddion ar yr un llaw, a phawb arall sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r cyfan ar y llaw arall, yw'r ffaith fod Edwards yn gyfenw cyffredin a bod y dasg o geisio cysylltu enwau ar un rhestr ag enwau ar restr arall bron yn amhosibl. Mae'n werth nodi hefyd fod y disgynyddion wedi cael mwy o lwyddiant wrth olrhain eu hachau yn ôl i'r Edwardsiaid a ymsefydlodd yn America yn hytrach nag i'r rhai a arhosodd ar ôl yng Nghymru.

Cyn gadael stori odidog miliynau'r Edwardsiaid am y tro mae'n werth nodi fod yr adroddiadau papur newydd am y cyfarfodydd gan yr *Edwards Family Claimants' Association* yn ne Cymru yn 1949 a 1950 (yn Aberdâr, Trecynon a Merthyr Tydfil, er enghraifft) yn nodi mai disgynyddion neb llai na William Edwards, 1719-89, yr adeiladydd pontydd a gweinidog Annibynnol, oedd yn y cyfarfodydd a bod ganddynt ddiddordeb mewn hawlio rhan o ffortiwn oedd yn seiliedig ar eiddo yn ardaloedd Merthyr Tydfil a Chaerdydd.

Mae'n werth nodi fod yna gopïau o *The Edwardes Legacy* gan David D. Edwards ym meddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac Archifdy Morgannwg yng Nghaerdydd.

---

# 200 "EDWARDSES" ARE AFTER £50,000,000

19/3/1949

## CAERPHILLY MAN CLAIMS SOLE OWNERSHIP

IT was a case of "standing room only" at the Lesser Miners' Hall, Merthyr, on Saturday, when 200 members of the "Edwards family," claimants to a £50,000,000 fortune, held a council of war.

All those present were descendants of William Edwards, an 18th century stone mason, who, they claim, owned the ground on which New York is built and land between Merthyr and Cardiff.

Saturday's meeting was concerned only with their claims in South Wales.

Members of the family came from as far afield as Bristol to attend.

Mr. John Harris, Crumlin, presided.

This was not the first time the claimants had met. Efforts have been made for many years to discover something which would give them the right to vast New York property. Recently, during their research, they discovered documents which would, they believe, establish their claim to land extending from Morlais Castle, near Merthyr, to Cardiff Castle, in a belt 15 miles wide on the left side of the River Taff. There are in Chancery moneys accumulating from the mineral rights, rents, tolls, etc., on this land.

The family is divided into ... Edwards said also that his ancestor was the first person to build a stone house in Brooklyn, New York.

Another John Edwards from Taff-street, Merthyr Vale, said his family had in their possession documents which would be of great importance. He had known nothing about the matter, he said, until he saw reports in the Press recently.

### DETAILS WOULD BE SIFTED

The chairman said that the meeting was not in any way concerned with the legal aspects of the case. All details provided would be sifted by solicitors.

The meeting decided to take steps to recover certain papers alleged to be held by a non-member of the family which, it was thought, were of great importance in establishing their inheritance.

They also agreed that another outside person, who had stated her willingness to hand over documents, should have one share of any monies resulting from a successful

---

# "EDWARDS MILLIONAIRES" CONFER AGAIN

Sat. 22/4/1950 Express

## LEGAL ADVISERS SAY EVIDENCE IS NOT YET SUFFICIENT

"No Press allowed."

This notice, measuring 4ft. by 2ft., confronted reporters outside the Coliseum, Trecynon, on Saturday, when 300 claimants for the "Edwards Millions" held yet another meeting.

The meeting was told that a mass of documents which had been deposited with Cardiff solicitors was not sufficient to establish a "reasonable claim."

Delivered in a trunk, the documents included hundreds of leases and birth and marriage certificates which had been gathered from various parts of South Wales, together with genealogical charts and letters yellowed with age.

... did not prove enough, and more information is necessary.

### NOT SO DISAPPOINTED

Interviewed by an "Express" reporter, the secretary of the Edwards Families Claimants' organisation (Mrs. E. Lewis, of Blaina), said: "We shall carry on. We are not as disappointed as we thought we were going to be. More responsibility will be given to the groups in the districts to gain the additional information required. We are sure the necessary details can be obtained."

Her confidence, however, was not shared by several others, who left the meeting in a despondent

*Dau doriad papur newydd yn dyddio o 1949 a 1950 yn ymwneud â chyfarfodydd yr Edwardsiaid yn ne Cymru.*